


Teulu'r Wyatts

Tua diwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, trawsffurfiwyd Ystâd y Penrhyn gan ymdrechion Richard Pennant, 'un o arloeswyr diwydiannol ac amaethyddol llai adnabyddus, ac eto un o'r rhai mwyaf nodedig' ei oes. Roedd gan deulu'r Wyatt rôl allweddol i'w chwarae yn natblygiad yr ystâd. Roedd teulu'r Wyatts o Swydd Stafford yn deulu talentog, ac yn cynnwys nifer o benseiri blaenllaw Lloegr y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd Samuel Wyatt wedi gweithio i Richard Pennant yn 1776 yng nghartref y teulu yn swydd Gaer. Rhoddwyd iddo'r dasg o foderneiddio neuadd ganoloesol ym Mhenrhyn, a gwnaeth hynny drwy ddefnyddio dull castell Gothig gyda thyredau a rhagfuriau.




Richard Pennant,
Arglwydd Penrhyn

Roedd gan deulu'r Wyatts rôl arweiniol wrth farchnata'r llechi. Canfu'r brodyr Wyatt sawl defnydd ar gyfer y llechi – gan eu defnyddio fel silffoedd, sisternau, seddi toiled a silffoedd ffenestri. Roedd gan James Wyatt, yr enwocaf o'r brodyr, a Samuel, drefniant penodol gydag Arglwydd Penrhyn a oedd yn caniatáu iddynt gael hynny o lechi yr oedd arnynt eu hangen cyn cyflenwi dim i'w asiantau yn Lerpwl.

Penodwyd brawd arall, Benjamin Wyatt (1745-1818) fel asiant cyffredinol yr ystâd. Gellir gweld ôl ei waith ym

Mhorth Penrhyn ac mewn mannau eraill ar yr ystâd. Roedd ymwelwyr yn teithio i ogledd Cymru i weld y golygfeydd a'r mynyddoedd godidog, ac yn

1791-2, gosododd Benjamin Wyatt ffordd newydd drwy Ddyffryn Ogwen i'r ymwelwyr. Roedd Pennant a Wyatt yn flaengar wrth ddarparu ar gyfer y diddordeb newydd hwn. Fe wnaethant adeiladu gwesty yng Nghapel Curig i bobl oedd yn ymweld ag Eryri, ac un arall ym Mhorth Penrhyn, y Penrhyn Arms, ar gyfer pobl oedd yn ymweld â'r castell a'r chwarel.



Swyddfeydd
harbwr Y Penrhyn
a adeiladwyd gan
Benjamin Wyatt

TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.